# Hysbysiad Preifatrwydd: Ymgeiswyr am Swyddi

## Ymgeiswyr: Sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio

### Cyflwyniad

1. Mae angen i Grŵp ateb (gan gynnwys Mill Bay Homes a Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru), y cyfeirir ato fel "y Grŵp", gadw a phrosesu gwybodaeth amdanoch at ddibenion recriwtio arferol. Dim ond at ein dibenion rheoli a gweinyddu ni y defnyddir y wybodaeth y byddwn yn ei chadw ac yn ei phrosesu. Byddwn yn ei chadw ac yn ei defnyddio i'n galluogi i redeg y busnes a rheoli ein perthynas â chi yn effeithiol, yn gyfreithlon ac yn briodol yn ystod y broses recriwtio. Mae hynny'n cynnwys defnyddio gwybodaeth i'n galluogi i gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol, mynd ar drywydd buddiannau dilys y Grŵp a gwarchod ein sefyllfa gyfreithiol pe bai yna achos cyfreithiol. Os na fyddwch yn darparu'r data hwn mae'n bosibl, mewn rhai amgylchiadau, na fydd modd i ni gydymffurfio â'n rhwymedigaethau a byddwn yn sôn wrthych am oblygiadau'r penderfyniad hwnnw.

2. Rydym wedi ymrwymo i gadw eich gwybodaeth bersonol yn breifat ac yn ddiogel. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn disgrifio sut y byddwn yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch yn ystod eich proses ymgeisio gyda ni ac ar ôl y broses honno, yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth gysylltiedig y DU, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018.

3. Ni fyddwn yn prosesu eich data oni bai bod gennym reswm cyfreithlon i'w brosesu. Mae hynny'n cynnwys defnyddio gwybodaeth i'n galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol, mynd ar drywydd buddiannau dilys y Cwmni a gwarchod ein sefyllfa gyfreithiol pe bai yna achos cyfreithiol. Os na fyddwch yn darparu'r data hwn mae'n bosibl, mewn rhai amgylchiadau, na fydd modd i ni gydymffurfio â'n rhwymedigaethau a byddwn yn sôn wrthych am oblygiadau'r penderfyniad hwnnw.

4. Mae'n bwysig bod y wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chadw amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Cofiwch roi gwybod i ni os bydd eich gwybodaeth bersonol yn newid yn ystod y broses recriwtio.

### Sut y caiff eich data ei brosesu

5. Caiff ffurflenni cais/casglu data eu cynhyrchu gan Grŵp ateb a fydd, fel rheolydd data,

yn casglu ac yn defnyddio eich data er mwyn eich ystyried ar gyfer swyddi gwag addas, cyfathrebu â chi yn ystod gwahanol gamau yn y broses ddewis (e.e. er mwyn trefnu cyfweliadau) a sefydlu ymgeiswyr llwyddiannus. Dylech gyfeirio yma at y feddalwedd Breezy a ddefnyddir gennych yn rhan o'r cam recriwtio.

**Y mathau o wybodaeth y byddwn yn ei chasglu ac o ble y caiff ei chasglu**

6. Mae'r math o wybodaeth y byddwn yn ei chadw yn cynnwys:
    a. eich ffurflen gais (a allai gynnwys gwybodaeth megis eich manylion cyswllt, eich rhywedd, eich dyddiad geni, eich hanes o ran cyflogaeth, eich teitl, eich cymwysterau a'ch diddordebau personol) a geirdaon
    b. dogfennau sy'n ymwneud â chi, e.e. nodiadau cyfweliad, tystysgrifau hyfforddiant a chymwysterau, dogfennau adnabod, e.e. pasbort
    c. gohebiaeth â chi neu amdanoch, e.e. gwahoddiadau i gyfweliad, llythyrau cynnig swydd, geirdaon
    ch. unrhyw wybodaeth arall y byddwch yn ei rhoi i ni yn ystod cyfweliadau
    d. gwybodaeth y mae ei hangen er mwyn monitro cyfle cyfartal.

7. Chi fydd wedi darparu llawer o'r wybodaeth y byddwn yn ei chadw, ond mae'n bosibl y daw peth ohoni o ffynonellau allanol megis asiantaethau recriwtio, canolwyr neu gwmnïau eraill sy'n rhan o Grŵp ateb, asiantaethau gwirio cefndir neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (ceir gwybodaeth isod am euogfarnau troseddol).

8. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cael gwybodaeth amdanoch sydd ar gael yn gyhoeddus, e.e. o'ch proffiliau ar gyfryngau cymdeithasol, Google neu wefannau cyflogwyr blaenorol.

**Sut y gallem fod yn defnyddio eich gwybodaeth**

9. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu amdanoch i:
    a. Asesu eich sgiliau, eich cymwysterau a'ch addasrwydd ar gyfer y swydd.
    b. Gwirio eich cefndir a'ch geirdaon, lle bo hynny'n berthnasol.
    c. Cyfathrebu â chi am y broses recriwtio.
    ch. Cadw cofnodion sy'n ymwneud â'n prosesau cyflogi.
    d. Cydymffurfio â'n gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol.

10. Mae penderfynu a ydym am eich penodi i'r swydd hon yn un o'n buddiannau dilys, gan y byddai penodi rhywun i'r swydd o fudd i'n busnes.

11. Mae angen hefyd i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol er mwyn penderfynu a ddylem ymrwymo i gontract cyflogaeth neu waith â chi.

12. Ar ôl cael eich ffurflen gais, byddwn ni a/neu Grŵp ateb yn prosesu'r wybodaeth er mwyn penderfynu a ydych yn bodloni'r gofynion sylfaenol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer ar gyfer y swydd. Os ydych chi, byddwn yn penderfynu a yw eich cais yn ddigon cryf i'ch gwahodd i gyfweliad. Os byddwn yn penderfynu eich galw i gyfweliad, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn y cyfweliad i benderfynu a ddylem gynnig y swydd i chi. Os byddwn yn penderfynu cynnig y swydd i chi, byddwn yn gofyn am eirdaon ac, yn dibynnu ar natur y swydd, efallai'n gwirio cofnodion troseddol neu'n cynnal gwiriadau perthnasol **eraill** cyn cadarnhau eich penodiad.

### Sut y byddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol sy'n arbennig o sensitif

13. Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol sy'n arbennig o sensitif yn y ffyrdd canlynol:
    a. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich statws o ran anabledd i ystyried a oes angen i ni ddarparu addasiadau priodol yn ystod y broses recriwtio, e.e. a oes angen gwneud addasiadau yn ystod cyfweliad.
    b. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich hil neu'ch tarddiad ethnig neu genedlaethol, eich credoau crefyddol, athronyddol neu foesol, neu'ch bywyd rhywiol neu'ch cyfeiriadedd rhywiol i sicrhau bod camau ystyrlon yn cael eu cymryd i fonitro cyfle cyfartal ac adrodd yn ei gylch.

### Gwybodaeth am euogfarnau troseddol

14. Yn dibynnu ar y swydd yr ydym yn recriwtio iddi, gallem fod yn prosesu gwybodaeth am euogfarnau troseddol.

15. Os yw hynny'n berthnasol, byddwn yn casglu gwybodaeth am eich hanes o ran euogfarnau troseddol os hoffem gynnig y swydd i chi (ar yr amod bod unrhyw wiriadau'n foddhaol a bod unrhyw amodau eraill, e.e. ynghylch geirdaon, yn cael eu bodloni). Yn achos rhai swyddi, mae gennym hawl i wirio cofnodion troseddol er mwyn ein bodloni ein hunain nad oes dim yn eich hanes o ran euogfarnau troseddol sy'n golygu eich bod yn anaddas ar gyfer y swydd.

16. Mae gennym ddogfen bolisi a mesurau diogelu priodol ar waith, y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni eu dilyn wrth brosesu data o'r fath.

### Rhannu data

17. Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â'r trydydd partïon canlynol:
    a. Gan fod Grŵp ateb yn ymgymryd â gwaith recriwtio ar ran ateb, Mill Bay Homes

a Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru, caiff ceisiadau a anfonir yn uniongyrchol atom eu rhannu â'r Grŵp at ddibenion y broses recriwtio.

b. Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu gwybodaeth ag unrhyw asiantaethau recriwtio sy'n gweithredu ar eich rhan.

c. Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu'r wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi i ni â'r sawl a enwyd gennych yn ganolwyr, er mwyn gwirio'r manylion a ddarparwyd gennych; gall canolwyr fod yn gyn-gyflogwyr, yn sefydliadau academaidd neu'n ganolwyr personol.

ch. Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu gwybodaeth â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wrth wirio cofnodion troseddol, os yw hynny'n berthnasol.

18. Mae'n ofynnol i Grŵp ateb, ac unrhyw ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti yr ydym yn eu defnyddio, roi mesurau ar waith i gadw eich data'n ddiogel, ac nid ydym yn rhoi caniatâd iddynt brosesu eich data at unrhyw ddiben ar wahân i ddibenion y broses recriwtio.

**Penderfyniadau awtomataidd**

19. Caiff penderfyniadau awtomataidd eu gwneud pan fydd system electronig yn defnyddio gwybodaeth bersonol i wneud penderfyniad heb ymyrraeth gan bobl. Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y caiff hynny ei ganiatáu. Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw benderfyniadau awtomataidd yn cael eu gwneud amdanoch chi; fodd bynnag, os bydd hynny'n newid, byddwn yn eich hysbysu'n ysgrifenedig ac yn rhoi gwybod i chi beth yw eich hawliau yn y maes hwnnw.

**Diogelwch data**

20. Byddwn yn storio'r wybodaeth a ddarperir gennych ar system gyfrifiadurol a ddarperir gan gwmni arbenigol sy'n gweithredu fel Prosesydd Data i ni ac sydd â'i swyddfeydd yn y DU. Byddwn yn storio peth gwybodaeth ar ffurf copi caled, e.e. nodiadau cyfweliad, dogfennau adnabod, tystysgrifau.

21. Mae gennym bolisïau a mesurau diogelwch ffisegol ac electronig priodol ar waith i gadw eich data personol yn ddiogel. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y mesurau hynny, dylech gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd ar ddiwedd y ddogfen hon.

22. Mae gennym weithdrefnau ar gyfer ymdrin ag unrhyw amheuon nad yw data personol wedi'i ddiogelu yn briodol ac, os cyfyd achos o fethu â diogelu eich data personol yn briodol, byddwn yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau dan gyfraith diogelu data o ran eich hysbysu chi a hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Cadw data

23. Byddwn yn cadw eich data personol am gyfnod o chwe mis ar ôl i ni roi gwybod i chi am ein penderfyniad i'ch penodi i'r swydd ai peidio. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am y cyfnod hwnnw er mwyn i ni allu dangos, pe bai hawliad cyfreithiol yn cael ei gyflwyno, nad ydym wedi gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr am resymau a waharddwyd a'n bod wedi cynnal yr ymarfer recriwtio mewn modd teg a thryloyw. Wedi'r cyfnod hwnnw, byddwn yn dinistrio eich gwybodaeth bersonol mewn modd diogel yn unol â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol.

## Eich hawliau

24. Dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data, mae gennych nifer o hawliau'n ymwneud â'ch data personol. Mae gennych yr hawl i:

    a. **Gofyn i ni am fynediad** i'ch data personol (fe'i gelwir yn aml yn "gais am fynediad i ddata gan y testun"). Mae'n eich galluogi i gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch a gwirio ein bod yn prosesu'r wybodaeth honno'n gyfreithlon.
    b. **Gofyn i ni gywiro** eich gwybodaeth bersonol. Mae'n eich galluogi i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch.
    c. **Gofyn i ni ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae'n eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu waredu gwybodaeth bersonol os nad oes rheswm da i ni barhau i'w phrosesu. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni ddileu neu waredu eich gwybodaeth bersonol os ydych wedi arfer eich hawl i wrthwynebu ei bod yn cael ei phrosesu (gweler isod).
    ch. **Gwrthwynebu ein bod yn prosesu** eich gwybodaeth bersonol, os ydym yn defnyddio ein buddiannau dilys ni (neu fuddiannau dilys trydydd parti) fel yr unig reswm dros wneud hynny ac os oes rhywbeth am eich sefyllfa benodol chi sy'n golygu eich bod am wrthwynebu unrhyw brosesu ar sail y rheswm hwnnw. Mae gennych hawl i wrthwynebu hefyd os byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol.
    d. **Gofyn i ni gyfyngu** ar y modd y caiff eich gwybodaeth bersonol ei phrosesu. Mae'n eich galluogi i ofyn i ni roi'r gorau i brosesu gwybodaeth bersonol amdanoch, e.e. os ydych am i ni gadarnhau bod y wybodaeth yn gywir neu gadarnhau'r rheswm dros ei phrosesu.
    dd. **Gofyn i ni drosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

25. Os byddwch am arfer un o'r hawliau hyn neu am gael gwybod mwy amdanynt, gan gynnwys os byddwch am wneud cais am fynediad i ddata gan y testun, dylech gysylltu

â'n Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd ar ddiwedd y ddogfen hon. Bydd dogfennau'n cael eu rhannu mewn fformat electronig. Ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol neu arfer unrhyw un o'r hawliau eraill. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn yn codi ffi resymol os yw'n amlwg bod eich cais am fynediad yn ddi-sail neu'n ormodol neu os byddwch yn gofyn am gopïau caled. Fel arall, efallai y byddwn yn gwrthod cydymffurfio â'ch cais mewn amgylchiadau o'r fath. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych er mwyn ein helpu i gadarnhau mai chi ydych chi a sicrhau bod gennych hawl i gael mynediad i'r wybodaeth. Mae hwn yn fesur diogelwch priodol arall i sicrhau na chaiff gwybodaeth bersonol ei datgelu i unrhyw berson nad oes ganddo hawl i'w chael.

26. **Hawl i dynnu caniatâd yn ôl:** Mewn amgylchiadau cyfyngedig lle gallech fod wedi rhoi caniatâd i'ch data gael ei gasglu, ei brosesu a'i drosglwyddo at ddibenion penodol, mae gennych yr hawl i dynnu'r caniatâd hwnnw'n ôl unrhyw bryd. Ni fydd hynny'n effeithio ar gyfreithlondeb y prosesu a ddigwyddodd cyn i chi dynnu eich caniatâd yn ôl. Os ydych am dynnu eich caniatâd yn ôl, dylech gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data. Pan fyddwn wedi cael gwybod eich bod wedi tynnu eich caniatâd yn ôl, byddwn yn rhoi'r gorau i brosesu eich gwybodaeth at y diben neu'r dibenion y gwnaethoch gytuno ag ef/â nhw yn wreiddiol, oni bai bod gennym reswm dilys a chyfreithlon arall dros barhau i wneud hynny.

27. Mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn credu nad ydym wedi cydymffurfio â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data neu Ddeddf Diogelu Data 2018 yng nghyswllt eich data personol.

**Pwy yw'r rheolydd data a'r Swyddog Diogelu Data a beth yw eu manylion cyswllt**

28. ateb Group Limited yw'r rheolydd data at ddibenion y Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

29. Os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach am y modd yr ydym yn trin y wybodaeth sydd gennym amdanoch, neu os oes gennych unrhyw bryderon am y modd y mae eich data'n cael ei brosesu, gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data:

Ceri Morgan drwy'r cyfeiriad e-bost hwn mydata@atebgroup.co.uk
ateb Group Limited
Tŷ Meyler
St Thomas' Green
Hwlfforddd
SA61 1QP

Chwefror 2025

Adolygwyd: Chwefror 2025